**PWYLLGOR CYNLLUNIO**

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod, 27 Gorffennaf, 2022.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd N.C. Thomas (Cadeirydd); Cynghorydd S.D. Perkes (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr R.M. Birch, G. Bruce, C.A. Cave, C.E.A. Champion, P. Drake, A.M. Ernest, N.P. Hodges, Dr I.J. Johnson, H.M. Payne, I.A.N. Perry, C. Stallard, E. Williams a M.R. Wilson.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr L. Burnett a S.J. Haines.

| Enw'r Llefarydd | Rhif Cais Cynllunio a Lleoliad | Rheswm dros Siarad |
|---|---|---|
| Mr. Jon Hurley | 2021/00622/FUL – 81-85 Holton Road, y Barrl | Ymgeisydd neu ei gynrychiolydd. |
| Mr. N. Jones | 2021/00622/FUL – 81-85 Holton Road, Y Barrl | Ymgeisydd neu ei gynrychiolydd. |
| Mr. A. Parker | Maes Gwersylla Arfordir Treftadaeth Monknash | Ymgeisydd neu ei gynrychiolydd. |
| Mr. G. John | 2021/01270/FUL - Brooklands, Brook Lane, St. Nicholas | Ymgeisydd neu ei gynrychiolydd. |

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr C.M. Cowpe a W. Gilligan.

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mehefin, 2022 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

| | | |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Dr I.J. Johnson | | Diddordeb personol – Roedd y Cynghorydd Dr. Johnson wedi gwneud sylwadau ac wedi cymryd rhan mewn trafodaethau |

| | | |
|---|---|---|
| | | ar y mater hwn yn flaenorol fel aelod ward lleol ac fel aelod o'r Pwyllgor Cynllunio. Cadarnhaodd nad oedd wedi penderfynu ymlaen llaw ar ei safbwynt ar y mater hwn ac y byddai unrhyw benderfyniad a wneir yn y cyfarfod yn cael ei wneud gan ystyried yn llawn yr holl wybodaeth sydd ar gael.<br><br>Arhosodd y Cynghorydd Dr Johnson yn y cyfarfod pan ystyriwyd yr eitem. |
| Y Cynghorydd H.M. Payne | | Diddordeb Personol - Roedd y Cynghorydd Payne yn aelod o Gynllunio Tref y Barri.<br><br>Cadarnhaodd nad oedd wedi penderfynu ymlaen llaw ar ei safbwynt ar y mater hwn ac y byddai unrhyw benderfyniad a wnaed yn y cyfarfod yn cael ei wneud gan ystyried yn llawn yr holl wybodaeth oedd ar gael.<br><br>Arhosodd y Cynghorydd Payne yn y cyfarfod pan ystyriwyd yr eitem. |
| Y Cynghorydd I.A.N. Perry | | Nododd y Cynghorydd Perry fod 3 Cais Cynllunio yn ei ward Cyngor Cymuned. Roedd yn adnabod un o'r trigolion ac wedi adrodd am y ddau arall i Orfodaeth ynglŷn â newid teils y to.<br><br>Gofynnodd y Cadeirydd am gyngor a chynghorwyd y Cynghorydd Perry mai |

| | | |
|---|---|---|
| | | mater iddo ef oedd penderfynu a oedd ganddo fuddiant rhagfarnus mewn unrhyw fater ond fe'i cynghorwyd yn hyn o beth nad oedd angen datganiad.<br><br>Arhosodd y Cynghorydd Perry yn y cyfarfod pan ystyriwyd yr eitem. |

EITEM AGENDA 4. CEISIADAU RHEOLI ADEILADAU A MATERION RHEOLI ADEILADAU ERAILL A BENDERFYNWYD GAN BENNAETH ADFYWIO A CHYNLLUNIO DAN BWERAU DIRPRWYEDIG (PAC) –

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi’r ceisiadau rheoliadau adeiladau a basiwyd, fel y'u rhestrwyd yn Adran A yr adroddiad.

(2) Y dylid nodi’r ceisiadau adeiladu a wrthodwyd, fel y’u rhestrir yn Adran B yr adroddiad.

(3) Nodi’r broses o gyflwyno Hysbysiadau dan y Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2000, fel y'i nodir yn Adran C o'r adroddiad.

(4) BOD y broses o gyflwyno Hysbysiadau dan Adran 32 Deddf Adeiladu 1984 fel y'i nodir yn Adran (D) o'r adroddiad, yn cael ei nodi.

EITEM AGENDA 5. CEISIADAU CYNLLUNIO A BENDERFYNWYD GAN BENNAETH ADFYWIO A CHYNLLUNIO DAN BWERAU DIRPRWYEDIG (PAC) –

PENDERFYNWYD – BOD y ceisiadau fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, ar dudalennau 14 trwy 32, o dan y pwerau wedi'u nodi uchod.

EITEM AGENDA 6. APELIADAU (PAC) –

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi’r apêl a dderbyniwyd yn dilyn gwrthodiad y Cyngor i roi caniatâd cynllunio, fel y manylwyd arno yn Adran A yr adroddiad.

(2) Y dylid nodi nad oedd unrhyw Apeliadau Gorfodaeth wedi’u derbyn ar adeg y cyfarfod.

(3) Nodi’r Penderfyniadau Apeliadau Cynllunio, fel y manylwyd arnynt yn Adran C yr adroddiad.

(4) BOD y Penderfyniadau Apêl Gorfodi, fel y manylir arnynt yn Adran D yr adroddiad, yn cael eu nodi.

(5) Nodi ystadegau’r apeliadau ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023, fel y’u nodir yn Adran E o’r adroddiad.

EITEM AGENDA 7. COED (PAC) –

(i) Rhestr Ddirprwyedig

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi'r ceisiadau fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, ar dudalennau 46 a 47, fel y penderfynir gan y Pennaeth Adfywio a Chynllunio o dan bwerau dirprwyedig.

EITEM AGENDA 8. CAMAU GORFODI (PAC) –

(i) Tir ac Adeiladau ar Dir y Tu Ôl i'r Eiddo o Holland Cottage, The Sycamores and Old Copse, Llantwit Road, Sain Tathan -

PENDERFYNWYD –

(1) BOD Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yn cael ei awdurdodi i gyhoeddi Hysbysiad Gorfodi dan Adran 172 o Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd) i'w gwneud yn ofynnol i:

(i) Roi'r gorau i ddefnyddio'r tir er mwyn storio:

(a) nwyddau sy'n gysylltiedig ag adeiladu gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i), deunyddiau adeiladu, ffitiadau, gosodiadau, arwyddion, ysgolion, paent, peiriannau, brics, ffensiau, siediau, tiwbiau, whilberi, tybiau, gwaith pren, paletau a fframiau UPVC ac eitemau amrywiol eraill;
(b) deunyddiau gwastraff cysylltiedig ag adeiladu gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i), rwbel, tybiau, gwaith pren a phaletau;
(c) unedau parod, siediau ac adeiladau eraill, ynghyd ag olion to.

(ii) Tynnu’n barhaol o’r tir:

(a) nwyddau sy'n gysylltiedig ag adeiladu gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i), deunyddiau adeiladu, ffitiadau, gosodiadau, arwyddion, ysgolion, paent, peiriannau, brics, ffensiau, siediau, tiwbiau, whilberi, tybiau, gwaith pren, paletau, fframiau UPVC ac eitemau amrywiol eraill;
(b) deunyddiau gwastraff cysylltiedig ag adeiladu gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i), rwbel, tybiau, gwaith pren a phaletau;
(c) unedau parod, siediau ac adeiladau eraill, ynghyd ag olion to.

(2) BOD, os na chydymffurfir â'r Hysbysiad, awdurdodiad yn cael ei roi i gymryd unrhyw gamau cyfreithiol sy'n ofynnol.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Mae'n ymddangos i'r Cyngor fod y toriad uchod o reolaeth gynllunio sy'n golygu bod y newid yn y defnydd o'r tir o amaethyddiaeth i ddefnydd cymysg o amaethyddiaeth a storio eitemau adeiladu a gwastraff, planhigion/peiriannau, lleoli cynhwysydd parod ac adeiladau cysylltiedig eraill wedi dechrau o fewn y 10 mlynedd diwethaf.

(2) Mae'r newid defnydd o'r tir heb awdurdod wedi arwain at nifer fawr o eitemau masnachol, gwastraff yn ogystal â pheiriannau ac adeiladau cysylltiedig yn cael eu storio ar dir amaethyddol mewn safleoedd y gellir eu gweld yn rhwydd. Mae hyn yn arwain at golli cefn gwlad agored sy'n niweidiol i gymeriad gwledig yr ardal ac i fwynderau gweledol eiddo lleol. Ar ben hynny, mae symud, didoli, casglu a chyflenwi eitemau, gwastraff a pheiriannau yn broses swnllyd ac aflonyddgar sy'n effeithio'n niweidiol mwy o amwynderau eiddo cyfagos ymhellach, trwy achosi sŵn ac mae'n effeithio'n niweidiol ar gymeriad yr ardal ymhellach. Felly ystyrir bod defnyddio'r tir heb awdurdod ar gyfer storio eitemau adeiladu, peiriannau a strwythurau ac adeiladau cysylltiedig yn groes i bolisïau MD2, MD5 ac MD7 y Cynllun Datblygu Lleol yn ogystal â chanllawiau a amlinellir ym Mholisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11, 2021).

(3) Ystyrir bod y penderfyniad yn cydymffurfio ag amcanion lles y Cyngor a'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

(ii) Tir ac Adeiladau yn 101, Port Road West, Y Barri -

PENDERFYNWYD –

(1) BOD Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yn cael ei awdurdodi i gyhoeddi Hysbysiad Gorfodi dan Adran 172 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd) i'w gwneud yn ofynnol i:

(i) Dynnu'r teils to sment llwyd ar yr annedd bresennol a'u disodli gyda dewis arall addas sy'n cyfateb, cyn belled ag y bo'n ymarferol, i liw a gwead/proffil concrit y teils ar yr annedd wreiddiol a'r eiddo cyfagos.

(i) Dynnu'r teils to sment llwyd oddi ar yr estyniad deulawr i'r ochr a'u disodli gyda dewis arall addas sy'n cyfateb i liw a gwead/proffil concrit y teils ar yr annedd wreiddiol a'r eiddo cyfagos.

(iii) Gostwng y wal/ffens ffin uchel 1.8m wedi'i hadeiladu o amgylch ffin yr ardd i uchder o ddim mwy nag 1m uwchben lefel y ddaear.

(iv) Tynnu pob deunydd gwastraff o ganlyniad i gymryd camau (i) – (iv) uchod o'r safle.

(2) Os na chydymffurfir â'r Hysbysiad, i roi awdurdodiad i gymryd unrhyw gamau cyfreithiol sy'n ofynnol.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Mae'n ymddangos i'r Cyngor bod y toriad uchod o reolau cynllunio yn ymwneud â datblygiad gweithredol - ail-doi'r annedd wreiddiol ac adeiladu'r wal derfyn, wedi digwydd o fewn y 4 blynedd diwethaf a bod toi'r estyniad gyda theils sment llwyd yn torri amod 2. Ar gais cynllunio 2020/01082/FUL, o fewn y 10 mlynedd diwethaf.

(2) Gwnaed y datblygiad i eiddo preswyl o fewn ffin yr anheddiad lle disgwylir iddo fod o ddyluniad o safon uchel sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gyd-destun a chymeriad yr amgylchedd naturiol ac adeiledig o'i amgylch ac sydd o raddfa, ffurf, cynllun a chymeriad sy'n gweddu i’w leoliad uniongyrchol a'i amgylchoedd ehangach. Ystyrir bod y defnydd o deils to sment llwyd ar yr annedd a'r estyniad gwreiddiol, a’r wal ffiniol yn annerbyniol gan eu bod yn tynnu oddi ar gymeriad yr eiddo presennol a'i leoliad ac yn cael effaith andwyol ar olygfa ehangach y stryd. Ystyrir bod y datblygiad felly’n groes i bolisïau SP1, (Cyflawni'r Strategaeth), SP10 (Amgylchedd Adeiledig a Naturiol, MD2 (Dylunio Datblygiad Newydd) ac MD5 (Datblygu o fewn Ffiniau Aneddiadau), Canllaw Cynllunio Atodol Datblygiadau Preswyl a Deiliaid Tai, Argraffiad 11 Polisi Cynllunio Cymru (2021) a Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio.

(3) Er gwaethaf gohebiaeth â pherchennog yr eiddo, ni wnaed unrhyw ymdrechion pellach i reoleiddio'r sefyllfa na dileu'r datblygiad anawdurdodedig yr ystyrir ei fod yn annerbyniol.

(4) Ystyrir bod y penderfyniad yn cydymffurfio ag amcanion lles y Cyngor a'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.

EITEM AGENDA 9. CEISIAD CYNLLUNIO (PAC) –

PENDERFYNWYD – Yn unol â'r pwerau a ddirprwywyd i'r Pwyllgor, y penderfynir ar y ceisiadau a ganlyn fel y nodir a chymryd unrhyw gamau angenrheidiol eraill.

**<u>2021/00622/FUL</u>**
**81-85, Heol Holltwn, Y Barri**

PENDERFYNWYD – sicrhau’r canlynol, ar yr amod bod yr ymgeisydd yn dod i gytundeb Adran 106:

**NAILL AI**

- Bod yr unedau preswyl yn cael eu cyflenwi gan Gyngor Bro Morgannwg, neu gan bartner Cymdeithas Dai (Tai Hafod, Tai Newydd, Cymdeithas Tai Unedig Cymru neu Wales & West Housing) o Gyngor Bro Morgannwg.

**NEU**

- Bod y datblygwr yn talu £54,996 am greu neu wella cyfleusterau addysgol mewn ysgolion sy'n gwasanaethu'r datblygiad ar gyfer plant ysgol uwchradd.
- Bod y datblygwr yn talu cyfraniad o £57,500 tuag at gyfleusterau trafnidiaeth gynaliadwy yng nghyffiniau'r safle.
- Bod y datblygwr yn gosod celf gyhoeddus ar y safle sy'n werth 1% o'r costau adeiladu neu fel arall yn talu cyfraniad o'r un gwerth i'r Cyngor.
- Bod y datblygwr yn talu cyfraniad o £66,700 tuag at greu neu wella man agored cyhoeddus yng nghyffiniau'r safle.

**A**

- Dim ond yn dai fforddiadwy sy'n bodloni'r diffiniad o dai fforddiadwy yn Atodiad B Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 2 Llywodraeth Cymru ar Dai Fforddiadwy, neu unrhyw ganllawiau yn y dyfodol sy'n ei ddisodli, y caiff yr unedau eu meddiannu.
- Mae'r datblygwr yn talu'r ffioedd cyfreithiol a gweithredu/monitro ar gyfer y cytundeb A106.

CYMERADWYWYD – Yn amodol ar yr amodau a gynhwysir yn yr adroddiad.

<u>Y rheswm dros y penderfyniad</u>

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**<u>2021/00764/FUL</u>**
**Maes Gwersylla Arfordir Treftadaeth, yr As Fawr**

CYMERADWYWYD – Yn amodol ar yr amodau a gynhwysir yn yr adroddiad.

<u>Y rheswm dros y penderfyniad</u>

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**<u>2021/01270/FUL</u>**
**Brooklands, Brook Lane, Sain Nicolas**

PENDERFYNWYD -

(1) BOD caniatâd cynllunio ar gyfer y gwaith fel y disgrifir yn y cais yn cael ei wrthod.

(2) BOD Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yn cael ei awdurdodi i gyhoeddi Hysbysiad Gorfodi dan Adran 172 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd) i'w gwneud yn ofynnol i:

i. Dynnu'r holl weithiau anawdurdodedig sydd wedi digwydd i Ysgubor F, gan gynnwys y drysau a'r ffenestri, waliau gwaith bloc, cladin a gorchudd y to, ac adfer yr ysgubor i'w ymddangosiad blaenorol, fel y dangosir yn y

cynlluniau cymeradwy a'r ffotograffau sydd ynghlwm wrth ffeil cais cynllunio 2011/00898/FUL;

ii. Dymchwel yr estyniad cyswllt o frics (y cyfeirir ato fel adeilad B yn y cais cynllunio a gyflwynwyd) sydd wedi ei adeiladu rhwng Ysgubor F a'r adeilad cyfagos (Ysgubor E);

iii. Adnewyddu gwedd ddwyreiniol Ysgubor E (yn dilyn dymchwel yr estyniad cyswllt) drwy fricio hyn mewn brics sy'n gweddu.

(3) BOD awdurdod yn cael ei gyrchu i gymryd unrhyw gamau cyfreithiol sy'n ofynnol os na chydymffurfir â'r Hysbysiad.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Mae maint y gwaith a gynigiwyd a'r hyn sydd wedi'i wneud i'r hen ysgubor â ffrâm borthol ddur yn nwyrain y safle (Ysgubor F), a'r estyniad sy'n cysylltu hyn â'r ysgubor frics a gwaith bloc cyfagos (Ysgubor E), ac fel y cynigiwyd, yn golygu ail-greu ac addasu'r adeilad yn sylweddol, i'r graddau y byddai'r elfennau hyn o'r cynnig yn gyfystyr â chodi adeilad newydd yng nghefn gwlad. Yn sgil dyluniad a chymeriad yr addasiadau/adeilad newydd, o'i gymharu â'i hen ymddangosiad amaethyddol, mae'r gwaith wedi niweidio a newid cymeriad yr adeilad yn sylfaenol ac yn annerbyniol. Erbyn hyn mae gan yr hen ysgubor borthol amaethyddol gymeriad trefol iawn, sydd ar draul y grŵp o adeiladau a chymeriad ehangach y buarth. Mae hyn yn mynd yn groes i Bolisïau MD1 (Lleoliad Datblygiad Newydd) a MD11 (Trosi ac Adnewyddu Adeiladau Gwledig) Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Bro Morgannwg 2011-2026, Canllawiau Cynllunio Atodol Trosi ac Adnewyddu Adeiladau Gwledig (2018) a chyngor yn Nodyn Cyngor Technegol 12 (Dylunio).

(2) Mae'r argymhelliad i wrthod caniatâd cynllunio wedi'i wneud yn unol ag Adran 38 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, sy'n ei gwneud yn ofynnol, wrth benderfynu ar gais cynllunio, i'r penderfyniad fod yn unol â'r Cynllun Datblygu oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall. Mae'r Cynllun Datblygu ar gyfer yr ardal yn cynnwys Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Bro Morgannwg ar gyfer 2011-2026 a Chymru'r Dyfodol – Cynllun Cenedlaethol 2040.

(3) Ystyrir bod y penderfyniad yn cydymffurfio ag amcanion lles y Cyngor a'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

(4) Ystyriwyd y dogfennau polisi morol priodol wrth benderfynu ar y cais hwn yn unol ag Adran 59 Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.

**<u>2021/01386/RG3</u>**
**2, Dyffryn Close, Sain Nicolas**

CYMERADWYWYD – Yn amodol ar yr amodau a gynhwysir yn yr adroddiad.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**2021/01387/RG3**
**4, Dyffryn Close, Sain Nicolas**

CYMERADWYWYD – Yn amodol ar yr amodau a gynhwysir yn yr adroddiad.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**2021/01388/RG3**
**13, Dyffryn Close, Sain Nicolas**

CYMERADWYWYD – Yn amodol ar yr amodau a gynhwysir yn yr adroddiad.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**2021/01809/FUL**
**Ysgubor (i'r gogledd o Fferm Howe Mill), Heol Sain Tathan, Eglwys y Santes Fair**

WEDI TYNNU'N ÔL gan yr ymgeisydd.

PENDERFYNWYD -

(1) BOD Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yn cael ei awdurdodi i gyhoeddi Hysbysiad Gorfodi dan Adran 172 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd) i'w gwneud yn ofynnol i:

(i) Adfer yr adeilad i'w gyflwr gwreiddiol gan gynnwys ymgymryd â'r canlynol:

- Tynnu'r rendr a roddwyd ar du allan yr adeilad.
- Tynnu'r ffenestri a'r drysau o'r gweddluniau blaen a chefn.
- Tynnu'r ardaloedd ychwanegol o waith bloc allanol newydd ar y gweddluniau.
- Tynnu'r to o deils o ddalennau metel proffiliedig.

(ii) Symud yr holl ddeunyddiau gwastraff o'r tir sy'n deillio o gymryd cam (i) uchod.

(2) BOD awdurdodiad yn cael ei geisio i gymryd unrhyw gamau cyfreithiol sy'n ofynnol, os na chydymffurfir â'r Hysbysiad,

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Ymddengys i'r Cyngor fod torri'r rheolaeth gynllunio uchod o ran datblygiad gweithredol wedi digwydd o fewn y 4 blynedd diwethaf.

(2) Mae'r gwaith a wnaed hyd yma wedi arwain at newid sylweddol yr hen adeilad brics gwledig ac nid ydynt yn gweddu i ddeunydd yr adeilad presennol ac mae'n effeithio ar ymddangosiad a chymeriad gwledig yr adeilad a'i leoliad gwledig ehangach mewn ffordd annerbyniol. Byddai'r datblygiad, felly, yn gwrthdaro â Pholisïau SP1 - Cyflawni'r Strategaeth, MD1 - Lleoliad Datblygiad Newydd, MD11 – Trosi ac Adnewyddu Adeiladau Gwledig ac MD13 - Twristiaeth a Hamdden Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Bro Morgannwg 2011-2026 a Chanllawiau Cynllunio Atodol Trawsnewid ac Adnewyddu Adeiladau Gwledig (2018), yn ogystal â pholisi cenedlaethol a nodwyd o fewn Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11, 2021), NCT 12 - Dylunio a NCT 24 – Yr Amgylchedd Hanesyddol.

(3) Ystyrir bod y penderfyniad yn cydymffurfio ag amcanion lles y Cyngor a'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**2022/00571/FUL**
**Canolfan Gofal Waverley, 122-124, Plymouth Road, Penarth**

CYMERADWYWYD – Yn amodol ar yr amodau a gynhwysir yn yr adroddiad.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.